Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru | South East Wales Corporate Joint Committee

Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol

9.30am ddydd Mercher 25 Mawrth 2026 drwy Microsoft Teams

Cofnodion

Aelodau		
Enw	**Swydd**	**Awdurdod**
Y Cynghorydd Andrew Morgan	Cadeirydd	Aelod o'r CJC
Y Cynghorydd Lis Burnett	Dirprwy Gadeirydd	Aelod o'r CJC
Y Cynghorydd Bronwen Brooks	Aelod	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Ann Crimmings	Aelod	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Nigel George	Aelod	CBS Caerffili
Y Cynghorydd Catrin Maby	Aelod	Cyngor Sir Fynwy
Y Cynghorydd John Morgan	Aelod	CBS Blaenau Gwent
Y Cynghorydd Amanda Owen	Aelod	CBS Torfaen
Swyddogion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR)		
Colan Mehaffey	Cyfarwyddwr Strategol Polisi, Effaith a Phartneriaethau	
Clare Cameron	Rheolwr Trafnidiaeth ac Ynni	
Oliver Kittridge	Cynlluniwr Trafnidiaeth Rhanbarthol	
Jonathan Deacon	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd	

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Dan De'Ath a'r Cynghorydd Neelo Farr.

2. Datganiadau o Fuddiannau

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan Aelodau neu swyddogion.

3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

3.1 Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir.

4. Dyfarniad Cyllid Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol 26/27

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Clare Cameron. Rhoddodd y cefndir bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cael ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Medi 2025. Roedd y Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Ionawr 2026. Ar 18 Mawrth 2026, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y Cynllun

Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) ac awdurdodau lleol cyfansoddol.

4.2 Cadarnhaodd Ms Cameron fod y cyllid RTDP a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Blwyddyn 1 y rhaglen tua £42.5m, gyda chyllid cyfatebol gan Awdurdodau Lleol a ffynonellau eraill a nodwyd hyd at werth tua £13m. Derbyniwyd £6m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag argymhellion Burns De-ddwyrain Cymru. Derbyniwyd £700k fel dyraniad refeniw ychwanegol a nodwyd ar gyfer diogelwch ffyrdd a newid ymddygiad yn 2026/27, a oedd wedi'i ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol i ddarparu addysg a hyfforddiant diogelwch ffyrdd. Roedd yna hefyd ddyraniadau cyllid 3 blynedd i'r CJC a'r awdurdodau lleol cyfansoddol mewn perthynas â 4 cynllun mawr ac mewn perthynas â chyllid refeniw ar gyfer cydweithrediad rheoli'r rhaglen gyflawni.

4.3 Cyfeiriodd Ms Cameron at y rhestr o ganlyniadau cyflenwi disgwyliedig y cyllid ym mharagraff 5.2 o'r adroddiad, gan gynnwys pobl a hyfforddwyd ar gyfer ymyriadau diogelwch ffyrdd, llwybrau a chyfleusterau teithio llesol a adeiladwyd, lonydd bysiau ac arosfannau bysiau a mannau parcio a theithio. Byddai'r gwaith i gyflenwi'r cynlluniau'n dechrau o 1 Ebrill gyda'r awdurdodau lleol yn cyflenwi'r cynlluniau yn eu hardaloedd a'r CJC yn goruchwylio ac yn cydlynu'r rhaglen.

4.4 Cafodd yr aelodau wybod hefyd gan Ms Cameron fod 5 cynllun wedi'u cytuno fel cynlluniau wrth gefn a fyddai'n cael eu symud ymlaen pe bai unrhyw gynlluniau cyfredol yn llithro i Flwyddyn 2.

4.5 Nododd Ms Cameron yr argymhellion yn yr adroddiad. Yn ogystal â nodi bod cyllid wedi'i ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol a'r CJC tuag at gyflenwi'r Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer 2026/27, gofynnwyd i'r Aelodau argymell bod y CJC yn dirprwyo awdurdod i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol i oruchwylio rheolaeth cyllid a rhaglen y Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol a hefyd argymell bod y CJC yn dirprwyo awdurdod i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol a Phrif Weithredwr y CJC, yn unol â thelerau ac amodau'r cyllid, i ddiwygio rhaglen yr RTDP l i ailddyrannu cyllid lle bo angen (rhag ofn llithriad) er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf o raglen RTDP o fewn yr amserlenni ariannu.

4.6 Mynegodd yr aelodau gymeradwyaeth i'r argymhellion. Diolchodd y Cadeirydd i Clare Cameron a Colan Mehaffey a swyddogion ac Aelodau eraill am eu rhan yn sicrhau'r cyllid a chroesawodd y cydweithio yn CCR a'r 10 awdurdod lleol cyfansoddol. Roedd y Rhaglen Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol 5 mlynedd wedi arwain at feddwl cydgysylltiedig.

4.7 Cytunwyd, fel y nodwyd gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Maby, y dylid parhau i geisio ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu digon o gyllid ar gyfer blynyddoedd diweddarach yr RTDP fel y gellid cyflenwi'r Cynllun llawn. Ar hyn o bryd roedd ymrwymiad i 50% yn y blynyddoedd diweddarach. Soniodd y Cynghorydd Maby fod cynlluniau nad oeddent ar y rhestr wrth gefn y mae angen eu cadw mewn cof, ac mae'n debygol y byddent yn gynlluniau a fyddai'n cynyddu o ran arwyddocâd dros y 5 mlynedd nad oeddent ar y rhestr gyfredol. Gofynnodd y Cynghorydd Burnett am roi ystyriaeth bellach i gyfleu canlyniad y cyllid a nodi sut olwg fyddai ar y dirwedd drafnidiaeth yn y dyfodol yn y 5 i 10 mlynedd nesaf yn y rhanbarth.

4.8 Dywedodd Colan Mehaffey ei fod yn ddiolchgar i Aelodau'r Is-bwyllgor am eu harweiniad, yn enwedig y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Roedd yn gyffrous bod yn y modd cyflenwi nawr mewn perthynas â'r RTDP. Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd Burnett dywedodd fod angen i CCR weithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol ar gyfleu'r Rhaglen Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol, a'r manteision a welid, i drigolion.

4.9 Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i'r prosiectau yn yr RTDP gael eu cyflenwi ar gyflymder. Pe bai CCR a'r 10 Cyngor Cyfansoddol yn gallu dangos eu bod yn cyflenwi, yna gellid cyflwyno'r achos yn haws dros gyllid ychwanegol yn y dyfodol.

4.10 Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd Maby eglurodd Ms Cameron mai dim ond rhestr wrth gefn gyfyngedig oedd yn bosibl ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cynghorau Cyfansoddol restr o'r prosiectau hynny nad oeddent ar y rhestr wrth gefn a phe bai llithriad, roedd opsiwn i drafod eu cynnwys gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

4.11 Gofynnodd y Cadeirydd am drafodaethau cynnar ynghylch cyllid parhaus Burns gyda Llywodraeth Cymru ar ôl etholiadau'r Senedd.

4.12 **PENDERFYNWYD** bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol yn:

1) Nodi bod cyllid wedi'i ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol a'r CJC tuag at gyflawni'r RTDP ar gyfer 2026/27;
2) Argymell bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru yn dirprwyo awdurdod i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol i oruchwylio rheolaeth cyllid a rhaglen y Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol; ac,
3) Argymell bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru yn dirprwyo awdurdod i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol a Phrif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, yn unol â thelerau ac amodau'r cyllid, i ddiwygio'r RTDP i ailddyrannu cyllid lle bo angen er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o'r Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol o fewn yr amserlenni ariannu.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.49am